

**Gwerthusiad critigol ac adnabod camau dysgu ag addysgu nesaf,
yn ffocysu ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol neu grŵp o
ddysgwyr, wedi'u sefydlu ar ddigwyddiad critigol a wylwyd**

Bwriad y traethawd hwn ystyried datblygiad cyfannol disgyblion cynradd gan ddefnyddio achos critigol ag arsylwyd ar lawr y dosbarth. Dadansoddir yr achos critigol yma gan ystyried damcaniaethau, llenyddiaeth, ac astudiaethau allweddol, a chasglir y canfyddiadau yma i greu casgliad lle awgrymir y camau priodol er mwyn hyrwyddo cynnydd datblygiad y disgyblion yma, a gwella cyfarwyddyd trwy ymarfer myfyriol. Yn gyntaf, ganolbwyntir ar sail yr astudiaeth a chyflwyno cefndir cyd-destunol yr ysgol a'r dosbarth wrth galon yr astudiaeth arsylwi hon gan gynhyrchu cysyniad o'r lleoliad. Yn dilyn, esbonnir yn fanwl y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod yr arsylwi wrth gydnabod dulliau arsylwi amrywiol, ac yn enwedig methodoleg gysylltiedig ag achosion critigol / astudiaethau achos. Nesaf, symudir ymlaen i drafod manylion yr achos critigol sydd wedi cyfrannu at brif gorff yr astudiaeth hon. Hefyd, wedyn cydnabod ei gysylltiad â phedwar diben Donaldson (2015). Adolygir llenyddiaeth ym mhrif gorff yr adolygiad achos critigol wrth ystyried dau faes cysylltiedig ag archwilio i safbwyntiau allweddol ynddynt ymhellach. Bydd atodiadau yn dilyn yr adolygiad o arsylwadau gwersi a myfyrdodau achosion critigol wedi'u cynnwys er mwyn cyfeirio atynt trwy gydol yr adolygiad. Yn nesaf y bydd awgrymiad gweithredu pellach trwy broses fyfyrionol a gwerthusol ar gyfer addasiadau bach a allai o bosibl fod yn fuddiol, hefyd yn werthfawr i'w cydnabod ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol. I gloi, trafodir crynodeb y weithdrefn a ddefnyddiwyd wrth ystyried cyfrifoldeb yr ymarferydd myfyriol yng Nghymru, yn enwedig Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Cyd-destun

Yr ysgol 'XY' wedi ei lleoli yng nghanol De Cymru ac yn ystod y blynyddoedd diweddar trawsnewidiodd yn ysgol i blant rhwng tair a phedwar ar bymtheg oed. Y cofrestriad disgyblion cyfredol yn sefyll yw 639, 167 o ddisgyblion yn yr adran gynradd a 472 o ddisgyblion yn yr adran uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2018) oherwydd ychwanegu ysgolion cynradd bwydo yn yr ardal o flwyddyn saith ymlaen. Yn yr ysgol gynradd mae 6.5% disgyblion o oedran statudol ysgol 5-15 yn gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cynrychioli cyferbyniad mawr i gyfartaledd Yr Awdurdod Lleol o 22.3% a'r

cyfartaledd Cenedlaethol o 18.4%. (Llywodraeth Cymru, 2018) Y mae'r ystadegau yn yr adroddiad Estyn yn amlinellu mai 9 y cant disgyblion sydd ar Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Yn bennaf mae mwyafrif y disgyblion o ethnigrwydd gwyn ac ychydig iawn o blant sydd gan ethnigrwydd amgen. Adroddwyd Estyn fod 41% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Gymraeg ac 90% y disgyblion yn siaradwyr Cymraeg Rhugl. (Estyn, 2017) Y dosbarth sydd yn ymwneud ag yr achos critigol ganddo blant rhwng 5 a 6 oed, sydd yn cynnwys 10 merched a 12 bechgyn o allu amrywiol.

Methodoleg

Edrychwyd ar ddulliau arsylwi a ddefnyddiwyd gan arsylwyr eraill cyn dewis ymagwedd sydd yn addas at bwrpas yr astudiaeth hon wrth ystyried barnau gwahanol. Datblygwyd technegau arsylwad amrywiol gan ddamcaniaethwyr wrth astudio disgyblion i sefydlu damcaniaethau o ran datblygiad disgyblion er mwyn ennill dealltwriaeth dros y blynyddoedd. Pwysleisiwyd Hall (1893; 1897a; 1897b) taw amgylchedd naturiol yw'r dull mwyaf dichonadwy ynglŷn ag arsylwi ar blant. Cyflwynwyd arsylwad disgyblion i'r maes athrawon dan hyfforddiant wrth gyfuno addysg a datblygiad seicolegol.

Oherwydd hyn yr ymagwedd arsylwi naturiolaid yn parhau i ddylanwadu arsylwi ar blant. Canolbwyntir yr ymagwedd naturiolaid ar arsylwadau ar bobol mewn amgylchedd naturiol sef, astudiaeth achos; astudiaeth gymharol; astudiaeth ôl-weithredol; cipluniau; astudiaeth hydredol; ethnograffeg; theori sylfaenol; a chofiant trwy gyfweiliadau a sgwrsio, dogfennau a nodiadau maes, arsylwi cyfranogwyr, adroddiadau, nodiadau a memos a ddefnyddir amlaf (Cohen et al., 2013) .

Awgryma Fawcett a Watson (2016) bod ystyried agweddau ar ymddygiad disgyblion wrth ddewis dull arsylwi yn hanfodol oherwydd ceir arsylwi heb gynllun neu ddull di-strwythur. Hefyd dylid nodi gwybodaeth gefndirol cyn dechrau arsylwi e.e. dyddiad, amser, nifer y disgyblion ac oedolion, y gweithgareddau, a'r lleoliad.

Yn dilyn, safle'r arsylwr yn codi ansicrwydd ymysg arsylwyr oherwydd gellir safle pell yn colli gwybodaeth sef manylion sgwrsio, ond ar y llaw arall cyflwynir 'Yr

Effaith Arsylwr' gan gymryd safle agos i blant (Papatheodorou, Luff, a Gill, 2012). Y ddadl debyg sydd gan Landsberger (1958) fod 'Yr Effaith Hawthorne' yn profi newid ymddygiad oherwydd ymwybyddiaeth pobl am yr arsylwi a newidiwyd ymddygiad pobl wrth gredu'r arsylwi wedi gorffen, felly y bydd ymddygiad disgyblion yn fwy tueddol i newid oherwydd presenoldeb agos gan yr arsylwr. Wedyn rhaid ystyried safle arsylwr mewn dosbarth oherwydd gellid effaith ar ymddygiad disgyblion a dylanwadu'r ymddygiad naturiol.

Yn bennaf, arsylwi naturiolaid yn cynnwys ymchwil ansoddol sydd yn canolbwyntio ar ddeall datblygiad disgyblion o ran sefyllfaoedd unigol. Ar wahân i hynny yw ymchwil feintiol a ddefnyddiwyd yn fwyaf gan arsylwi dan reolaeth i gynhyrchu canlyniadau ystadegol datblygiad disgyblion i'w cymharu. Dadleua Cohen et al. (2013) nad yw ymchwil ansoddol yn niwtral oherwydd gwerthoedd, credoau, a rhagdybiaethau'r arsylwr, felly dylid arsylwr cydnabod hyn wrth arsylwi er mwyn nodi dealltwriaeth o arsylwad.

Ymhellach yr ymchwil ansoddol yn dechrau o safbwynt cwestiynau nad rhagdybiaeth. Bydd lleoliad yr astudiaeth yn effeithio ar y cwestiynau sydd yn ymwneud â deall ymddygiad disgyblion mewn sefyllfa, meddwl disgyblion, ymateb disgyblion, a chyd-destun y lleoliad. Hefyd oedrannau'r disgyblion yn effeithio ar ddull yr arsylwi, e.e. holiaduron oherwydd nad yw'n bosibl i blant ifanc ysgrifennu llawer.

Nesaf, noda Fawcett a Watson (2016) fod defnyddio vignette yw dull megis stori fanwl. Y dull vignette yn ffocysu ar ymddygiadau a rhyngweithio, a mewnwleidiad manwl heb angen nodi popeth a arsylwyd. Ni ellir anwybyddu'r ffaith bod hi'n anodd dod yn gyfarwydd â sgiliau vignette ac mae'n anodd dilyn rhyngweithio hir sydd yn achosi nodiadau nas ddefnyddiwyd. Dadleua Bartholomew a Bruce (1993) fod rhestrau gwirio yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig er gwaethaf nodi galluedd disgyblion, gellid colli ymddygiadau heb ei gynnwys ar y rhestr.

Y dull samplu amser yn cynnwys arsylwadau ar gyfnodau penodol, sydd angen disgyblaeth yr arsylwr i ffocysu yn ystod amserau penodol. Ond y dull samplu amser yn cynnig potensial colli digwyddiadau heb eu cynnwys yn ystod y cyfnodau penodol. (Cohen et al., 2012) Ar wahân i hynny gellid ystyried y dull arsylwi ar blentyn targed. Y bydd arsylwr yn canolbwyntio ar blentyn a nodi amser, iaith, gweithgaredd, a rhyngweithio trwy ddefnyddio codio i gofnodi'n gyflym a chywir. Yn dilyn, cyflwynir

arsylwi samplu digwyddiadau rhoi cyfle i arsylwr ffocysu ar ddigwyddiadau mewn dosbarth a thalu sylw at ymddygiad plentyn a'r cyd-destun, ond ar y llaw arall mae'n anodd nodi'r hyn a ddiffinnir megis digwyddiad o bosibl yn colli digwyddiad cyn sylweddoli ei fod yn digwydd (Papatheodorou et al., 2012) Y defnydd o system codio yn caniatáu i'r arsylwr dalu mwy o sylw i'r plentyn yn hytrach nag ysgrifennu nodiadau, fodd bynnag, y system codio angen hyfedredd yr arsylwr i fod yn llwyddiannus (Fawcett a Watson, 2016). Awgryma Palaiogolu (2008) bod arsylwi diogramatig sef sosiogramau, olrhain, histogramau, a siartiau bar a phastai yn cyfrannu at greu data meintiol sydd yn dangos pa mor aml neu faint o ymddygiad penodol yn digwydd. Nid ydynt yn esbonio pam yr ymddygiad wedi digwydd, neu geisio deall amgylchiadau ymwneud a'r amgylchiadau.

Wrth ystyried y dadleuon hyn, penderfynwyd ddefnyddio'r dull arsylwi a ddatblygwyd gan Wood (2016) sy'n canolbwyntio ar brif ddigwyddiadau'r wers, ac yn osgoi cymysgu teimladau'r arsylwr.

Gwelwyd yr achos critigol yn ystod gwers addysg gorfforol ym mlwyddyn un, roedd 22 o blant yn gweithio mewn parau i greu dawns y dail oherwydd thema gyfredol oedd yr hydref. Roedd yr athrawes yn gofyn i blant am awgrymiadau ynglŷn â'r dasg ac esboniadau am daith y dail yn ystod yr hydref wrth ddefnyddio geiriau allweddol. Esboniodd yr athrawes manylion y dasg yn glir a gofynnodd i'r disgyblion gweithio mewn parau i greu dawns y dail gan gynnwys o leiaf 4 symudiadau gwahanol ar lefelau amrywiol wrth bartneriaid cyfnewid safle arwain a dilyn y ddawns. Gwrthodwyd un disgybl X i gymryd rhan er gwaethaf anogaeth yr athrawes a'r partner ambell waith. Parhawyd y disgybl X wrthod cymryd rhan gan eistedd i lawr a gwyllo'r disgyblion eraill yn gweithio hyd y wers ac edrych yn drist.

Gwelwyd y wers a'i chysylltiadau a'r cwricwlwm newydd sef pedwar diben Donaldson, yn enwedig unigolion iach a hyderus. Yn ôl adroddiad Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus* o ran y diben ' yn unigolion iach, hyderus' rhaid cyfaddef fod y wers ymarfer corff wedi cael ei chynllunio i gyfrannu at y maes dysgu Celfyddydau Mynegiannol a'r maes dysgu Iechyd a Lles oherwydd bydd disgyblion yn tyfu mynegiant, creadigrwydd, dyfalbarhad, hyder a chynyddu ansawdd a bwywyd trwy archwilio a mwynhau celfyddydau mynegiannol. Hefyd, bydd Iechyd a Lles yn helpu disgyblion i ffynnu gan gynnwys profiadau cymdeithasol, emosiynol a chorfforol

ymwneud â lles. Gall disgyblion yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol trwy gymryd rhan a dysgu am fuddion gweithgaredd corfforol i wella eu bywydau a chyfrannu at wella eu hiechyd a lles. (Donaldson, 2015) Yn ogystal â'r wers yn ystod yr achos critigol gellid gweld y berthynas â'r meysydd dysgu Iechyd a Lles a Chelfyddydau Mynegiannol, a hefyd y berthynas â'r diben 'yn unigolyn iach a hyderus'. Yn arbennig y nodau a chanlyniadau "yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi".. "yn cymhwyso gwybodaeth am effaith diet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd".. "yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol".. "â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau".. "yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd".. "yn wynebu heriau ac yn eu trechu".. "â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant." (Donaldson, 2015) Mae'n wybyddus fod y wers 'dawns y dail' yn cynnwys llawer o amcanion o ran y diben Donaldson 'yn unigolion iach, hyderus'.

Yr ail ystyriaeth yw cyswllt y wers a'r diben 'yn gyfranwyr mentrus, creadigol' oherwydd hi'n bosibl gweld yr amcanion ymysg cynllun y wers. Hynny yw "yn cysylltu ag yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion".. "yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol".. "yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau".. "yn rhoi o'u hegri a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa." (Donaldson, 2015)

I gloi, nad rhaid chwilio ymhell i ganfod tystiolaeth fod y wers ar ganolbwynt yr achos critigol yn uniaethu ag elfennau'r ddau ddiben Donaldson a drafodwyd a nifer yr amcanion ynddynt i gyfrannu at dwf a datblygiad y disgyblion.

Adolygiad Llenyddiaeth

I ddechrau, gan gyfeirio at yr achos critigol a drafodwyd eisoes i dynnu sylw at wrthod y disgybl X i gymryd rhan yn y wers, ngoleuni hyn canolbwyntir ar ddeall ymateb y disgybl i'r sefyllfa sydd wedi effeithio ar gynnydd ei phrofiad dysgu a datblygiadol.

Mynna'r dull ymddygiad fod disgyblion yn ddysgwyr goddefol sydd yn dysgu oherwydd profiad a rhyngweithio ag amgylchedd. Disgrifia Pritchard fod ymddygiadaeth yw'r broses o ddysgu gan dystio ymddygiad a'r newid o ymddygiad

sy'n digwydd oherwydd hyn, heb ystyried prosesau meddyliol, ac mae dwy agwedd o ymddygiadaeth sef cyflyru clasurol a chyflyru gweithredol (Pritchard, 2013). Credwyd Pavlov fod pobol yn dysgu trwy gysylltu un ysgogiad diamod ag un ysgogiad niwtral sy'n cynhyrchu ymateb ymddygiadol sef cyflyru clasurol. Dysgwyd Pavlov mewn arbrawf â chŵn fod ysgogiad diamod (bwyd) yn cynhyrchu ymateb poeru gan y ci, wedyn nad oedd ymateb gan y ci wrth Pavlov yn canu cloch (ysgogiad niwtral). Penderfynwyd Pavlov ganu cloch a rhoi bwyd i'r ci ar yr un pryd ac roedd ymateb poer gan y ci oherwydd y bwyd (yn ystod cyflyru) felly, pan oedd Pavlov yn canu cloch heb bwyd cynhyrchwyd y ci ymateb gan poer oherwydd daw'r gloch ysgogiad cyflyredig a megis canlyniad daw'r poer yn ymateb cyflyredig sy'n golygu cyflyru clasurol (Pavlov, 1927). O ran y theori gan Pavlov mae'n bosibl ystyried ymateb y disgybl X yn ystod yr achos critigol megis canlyniad cyflyru clasurol e.e. efallai cwmpodd y disgybl X i lawr ac roedd hi'n brifo mewn gwers ymarfer corff yn flaenorol, felly roedd y brifo (ysgogiad diamod) yn creu ymateb crio/ wedi cynhyrfu (ymateb diamod). Oherwydd hyn digwyddodd cyflyru clasurol a daw'r wers ymarfer corff (ysgogiad niwtral) yn troi i ysgogiad cyflyredig oherwydd y cyswllt â'r brifo, wedyn gellid dweud bod daw'r ymateb disgybl X i'r wers ymarfer corff, wedi'i chynhyrfu a gwrthod cymryd rhan megis ymateb wedi'i chyflyru.

Wrth ystyried y pwnc hwn gellid edrych ar y theori adeiladol a ddefnyddiwyd gan ddamcaniaethwyr sef Dewey (1933). Gan gynnwys y theori hon mae damcaniaethwyr yn credu bod disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu drwy adeiladu gwybodaeth o'r byd a drwy brofiad. Y bydd disgyblion yn asesu beth maent wedi profi, gofyn cwestiynau ac archwilio, hefyd wrth ystyried gwybodaeth newydd mae disgyblion yn ei gymharu â gwybodaeth a phrofiad blaenorol er mwyn datblygu eu dysgu a gwybodaeth neu ddiystyru'r wybodaeth newydd oherwydd diffyg perthnasedd. Mae'n wybyddus fod y theori adeiladol yn wahanol iawn i'r theori ymddygiad wrth ystyried y credoau amrywiol rhyngddynt.

Y theori datblygiad gwybyddol gan Jean Piaget yn cyferbynnu â theori Pavlov oherwydd canolbwyntir ar ddatblygiad gwybyddol ac aeddfedu biolegol. Astudiwyd Piaget datblygiad disgyblion mewn amgylchedd naturiolaid, gofynnodd cwestiynau iddynt ac ystyriwyd yr atebion i asesu datblygiad gwybyddol ac aeddfedu biolegol. Creda Piaget fod datblygiad gwybyddol disgyblion yn digwydd gan symud drwy bedwar cam o'r enw 'synhwyrdd motor' (o enedigaeth hyd at ddwy oed),

cynweithredol (o ddwy oed i saith oed), gweithredu concret (o saith oed i un a'r ddeg oed), a gweithredu ffurfiol (o un a'r ddeg oed ac ymlaen). Bydd pob plentyn yn symud drwy'r camau yn yr un drefn ond y bydd cyfaredd y datblygiad yn amrywio, serch hynny mae'n bosibl na fydd bob plentyn yn cyrraedd at y camau olaf. Penderfynwyd Piaget fod mesur o ddatblygiad disgyblion yn cynnwys aeddfedu biolegol a'r ffordd maent yn rhyngweithio a'u hamgylchedd. Gwelwyd Piaget fod y broses o ddatblygiad yn golygu meithrin dealltwriaeth feddyliol disgyblion o'r byd. Dadleua Piaget fod disgyblion angen cyfle i archwilio er mwyn deall pethau eu hunain, felly maent yn chwarae rôl weithredol yn eu datblygiad ac mae athrawon yn chwarae rôl o hwylusydd. Yn y cyfnod synhwyrdd motor, mae disgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth o wrthrychau. Wedyn, yn y cyfnod cynweithredol y bydd disgyblion yn dechrau symboleiddio gwrthrychau a geiriau a gweld cysylltiadau a phethau arall sef ymuno dysgu blaenorol â gwybodaeth newydd ac adeiladu arnynt. Nid oes dealltwriaeth gan blant o safbwyntiau pobl arall yn y cyfnod hwn hefyd. Yn ôl ymagwedd Piaget, mae'r disgybl X yn rhan o'r cyfnod cynweithredol, felly gellid ystyried datblygiad disgyblion y cyfnod hwn o ran yr achos critigol. Yn deillio o hyn, roedd y disgybl X yn gwrthod cymryd rhan y wers ymarfer corff oherwydd roedd rhaid i blant cydweithio ac efallai roedd y disgybl yn teimlo'n anghysurus i weithio gyda phartner ac ystyried ei syniadau, felly penderfynodd hi wrthod cymryd rhan. Tra bod dadl Piaget efallai'n gywir, rhaid nodi bod y theori adeiladaeth gymdeithasol wedi cael ei datblygu yn dilyn y theori adeiladol gan gynnwys agwedd bellach.

Prif ddamcaniaethwr sy'n gysylltiedig â'r agwedd hwn yw Vygotsky (1978). Dadleua Vygotsky taw rhyngweithio gymdeithasol yw'r ffynhonnell ganolog o fewn datblygiad gwybyddol. Mewn ymateb i'r hyn ag arsylwyd yn ei ymchwil, creodd Vygotsky'r 'Parth Datblygiad Agosrwydd', lle ceisiodd esbonio datblygiad gwybyddol disgyblion wrth iddynt ymgysylltu a'u cyfoedion neu oedolion mwy gwybodus. Gall plentyn cwblhau tasgau'n annibynnol o fewn y parth cysurus; yna, mae plentyn yn gallu gwneud tasgau â chefnogaeth gan berson gwybodus, megis athrawes, oedolyn, neu gyd-ddisgybl sy'n fwy gwybodus, o fewn y parth dysgu. Ac yn olaf, y parth pryder yw'r haen lle ni all disgybl cwblhau tasgau heb gymorth yr un mwy gwybodus. Yn ogystal â hyn gellid ystyried y theori Parth Datblygiad Agosrwydd wrth feddwl am yr achos critigol, efallai roedd y dasg ar gyfer y wers ymarfer corff yn anodd i'r disgybl 'X' ac roedd y dasg wedi'i lleoli yn y parth pryder felly nad oedd y disgybl 'X' yn hyderus

a phenderfynodd hi wrthod cymryd rhan oherwydd yr anhawster. Ni ellir gwadu fod Vygotsky wedi codi pwyntiau da i'w hystyried o ran datblygiad disgyblion ac ymateb y disgybl 'X' i'r wers ymarfer corff.

Damcana Bronfenbenner dull tebyg, sef y Damcaniaeth Systemau Ecolegol (1978). Hapfasnacha'r theori yma bod datblygiad disgyblion yn digwydd o ganlyniad i ddylanwad yr amgylchedd o'u cwmpas. Mae gan y system pedair haen, gyda'r plentyn yn ganolog. Yr haen agosaf i'r plentyn yw'r haen 'micro system', sef yr amgylchedd mwyaf dylanwadol, e.e., y tŷ, teulu agos, ysgol, a chymdogaeth. Yr haen nesaf, sef y 'meso system', yw'r haen sy'n cynnwys cysylltiadau pellach, megis ffrindiau a'r teulu neu deulu a'r athrawon. Yr 'ecosystem' yw'r drydedd haen. Yma, ceir cysylltiadau cymdeithasol rhwng y plentyn a lleoliadau anuniongyrchol, megis diwydiant, gwasanaethu cymdeithasol, y cyfryngau, gweithlu'r rhieni. Effeithia'r rhain ar y ffordd maent yn rhyngweithio â'r plentyn.

Yn olaf, y 'macrosystem' yn golygu dylanwad diwylliannol sydd yn cysylltu â'r systemau eraill oherwydd maent yn rhan o ddiwylliant, ond mae diwylliant yn amrywio oherwydd lleoliad daearyddol, statws economaidd-cymdeithasol, tlodi ac ethnigrwydd. Mae'r system-macro yn gallu newid dros amser ac o genhedlaeth i genhedlaeth. Wrth ystyried theori Bronfenbrenner gellid dweud bod amgylchiadau ecolegol wedi effeithio ar y disgybl 'X', ac maent wedi cyfrannu at ymddygiad y disgybl; e.e., mae'n bosibl meddwl bod rhiant y disgybl wedi dweud bod y pwnc ymarfer corff yn ddibwrpas ac nad oeddent yn dda mewn gwrs ymarfer corff neu fwynhau'r wers. Felly oherwydd hyn, bydd y system-ficro yn effeithio ar ddatblygiad y disgybl 'X', bydd barn a theimladau'r rhiant y disgybl 'X' yn dylanwadu arni a chyfrannu at ffurfio ei barn hi am ymarfer corff. O ganlyniad hyn, penderfynodd y disgybl 'X' fod y wers ymarfer corff yn ddibwrpas hefyd felly nad oedd hi'n cymryd rhan a chollodd hi'r cyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd ymwneud â'r wers. Ar y cyfan mae'n bosib gweld effaith systemau ecolegol ar ddatblygiad disgyblion ac mae'n werthfawr ystyried wrth feddwl am addysgu disgyblion.

Pwysleisia Donaldson (2015) fod iechyd a lles yn cydran allweddol o fewn addysg, argymhellir iechyd a lles i fod un o'r 6 maes dysgu oherwydd y pwysigrwydd. Hefyd, gwelir elfennau iechyd a lles o fewn y 4 diben, megis, disgyblion iachus a

hyderus, disgyblion sy'n barod i fod yn rhan o gymdeithas, disgyblion sy'n barod i chwarae rhan mewn bywyd a gwaith (Donaldson, 2015).

Mae'n bosibl ystyried ffactorau iechyd a lles wrth feddwl am ymateb y disgybl X i'r wers. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae plant â phroblemau iechyd meddwl yn arddangos ymddygiadau megis: 'pryder, ofnau, cynhyrfu tymor-byr ac hwyliau isel, anawsterau canolbwytio, strancio tymer, ymddygiad ymestynnol, ymosodedd, a herfeiddiad' (2010: 8). Rhaid cyfaddef ymateb disgybl X i'r wers yn gallu awgrymu elfennau materion iechyd meddwl oherwydd roedd y disgybl yn cyflwyno ymddygiadau a drafodwyd gan Llywodraeth Cymru sef, herfeiddiad, cynhyrfu tymor-byr, a stranc tymer. Ond noda'r Llywodraeth fod yr ymddygiadau yn gallu digwydd bob dydd mewn ysgol a dylid pryderon yn codi os oes arddangosiad parhaus o'r ymddygiadau dywededig gan disgybl sy'n effeithio ar ddatblygiad a dysgu (2010). Yn dilyn hyn, amlyga'r Llywodraeth fod Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol (AYECh) yn adnabod plant a phobl ifanc sydd yn arddangos ymddygiadau hyn yn parhaus.

Dengys yr holl ddadleuon fod hi'n bwysig meddwl am ddatblygiad disgyblion â'r theorïau wrth gynllunio ac addysgu gwers.

Adfyfrio a gwerthuso

O ran addysg, ysgrifennwyd Llywodraeth Cymru Safonau Proffesiynol sy'n uniaethu ag athrawon ac arweinwyr, ac ymarferwyr sy'n cynorthwyo addysgu mewn ysgolion (2018). Amlinellir y safonau disgwyliadau i holl ymarferwyr ysgol i'w dilyn sydd yn cyfateb i'r cwricwlwm newydd. Mae yna bum safon broffesiynol: addysgeg; cydweithredu; arweinyddiaeth; arloesi; a dysgu proffesiynol. Pwysleisia'r Llywodraeth fod addysgu effeithiol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: arsylwi, adfyfrio, cydweithio, ymchwil i lenyddiaeth a damcaniaethau pellach, hefyd treialu ac addasu dulliau sydd yn seiliedig ar ymchwil ac arsylwi adfyfyriol er mwyn gwella addysgu a datblygu dysgu disgyblion. Felly, gellid gweld pwysigrwydd adfyfrio o fewn y proffesiwn addysgu yng Nghymru ar gyfer dyfodol y byd addysg (2018).

Cyn dechrau adfyfrio, ystyrir ystyr myfyrdod beirniadol er mwyn deall y broses yn glir. Yn ôl Brookfield, mae pedair lens yn cynnwys adfyfrio, sef, cyfrif personol megis dysgwr ymarferol; llygaid y dysgwyr; profiadau ein cydweithwyr; a llenyddiaeth ddamcaniaethol (1998). Amlyga Brookfield fod myfyrdod beirniadol yn broses ymholi ag

ymarferwyr er mwyn ymchwilio a darganfod rhagdybiaethau eu harfer, hefyd, gan astudio'r rhagdybiaethau hyn trwy'r pedair lens. Gan edrych ar ragdybiaethau arfer addysgu trwy lens ar wahân i farn yr athro/ athrawes, gellid gwerthuso eu heffaith ar ddatblygiad plant a chwestiynu'r effeithiolrwydd o safbwyntiau eraill. Awgryma Brookfield (1998) fod y broses hon yn cyfrannu at ddeall rhagdybiaethau ac ymchwilio ymhellach i agweddau ystumied ar arfer.

Y model adfyfrio a ddefnyddiwyd yw'r Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) a ddatblygwyd gan PYDDS sy cynnwys pedair adran: teimladau; cofio a deall; gwerthuso a dadansoddi; casgliadau a chatau gweithredu. Yn yr un modd, gellid gweld tebygrwydd rhwng y model BWA a'r model a ddatblygwyd gan Brookfield (1998) oherwydd mae'r model yn anelu at wahaniaethu teimladau'r arsylwr â cryfderau'r addysgu, gwerthusiadau a chatau gweithredu. Mae'r daflen BWA (atodiad 2.1) sy'n uniaethu ag yr achos critigol yn helpu adfyfrio a gwerthuso. Wrth edrych ar y teimladau am y wers 'dawns y dail', :ar y cyfan roeddwn i'n hapus ar sut wnaeth y wers oherwydd roedd y plant yn fodlon cymryd rhan a gweithio gyda'i gilydd. Roedd y plant yn gwrando ar y cyfarwyddiadau ac roeddent perfformio'u dawnsiau yn hyderus. Roedd hi'n siomedig am y disgybl X yn gwrthod cymryd rhan oherwydd roedd hi'n colli'r cyfle i weithio â phartner ac roedd y plant yn mwynhau'r wers. O ran cryfderau a gwendidau'r wers, roedd y plant yn gweithio'n dda mewn partneriaid a llwyddodd y plant i berfformio. Nid oedd y disgybl X yn cymryd rhan ac nad oedd hi'n fodlon cael tro ar ôl yr athrawes yn ei hannog. Wrth ystyried yr adran gwerthuso a dadansoddi, bydd yn werthfawr parhau'r wers mewn modd datblygiadol e.e. rhoi cyfle i'r plant datblygu sgiliau sef gweithio mewn grwpiau. Nid oedd hi'n bosibl deall sut oedd y disgybl X yn teimlo sydd wedi achosi gwendid y wers oherwydd nad oedd hi'n fodlon siarad. Ond, dylid sgwrsio â chydweithwyr er mwyn deall y sefyllfa a gweithio â'i gilydd i feddwl am gamau nesaf i wella'r addysgu. Mae'n amlwg O ran y casgliadau a chatau gweithredu, er mwyn goresgyn y problemau mae'n rhaid i ymchwilio i lenyddiaeth gysylltiedig er mwyn ceisio deall ymddygiad y disgybl X. Hefyd, efallai dylid siarad â'r disgybl X er mwyn deall y sefyllfa a thrafod am ei theimladau. Bydd yn werthfawr monitro'r disgybl X yn ystod gwersi wrth ddefnyddio'r 'Leuven Scales for Well-being and involvement' maent wedi cael ei datblygu gan Leavers i astudio iechyd meddwl a lles plant. Bydd canlyniadau'r graddfeydd yn helpu deall ymddygiad y disgybl, ac efallai helpu penderfynu camau nesaf megis ymyriadau sef, CCLIE. Llais y plentyn yn bwysig iawn mewn ysgolion heddiw oherwydd mae'n cyfrannu at wella ymgysylltu â phlant. Felly, gellid gofyn i'r disgybl X am ei barn ac efallai gofyn iddi ddewis rhywbeth i wneud mewn gwrs ymarfer corff.

Mae'r model adfyfyrion BWA yn cyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol oherwydd mae'n fy helpu i feddwl am addysgu ac ystyried addysgu effeithiol ac addysgu aneffeithiol. Rwyf yn gallu gweithio â chydweithwyr er mwyn trafod materion a meddwl am strategaethau ar gyfer camau nesaf. Hefyd, mae'r model yn annog i fi ymchwilio i lenyddiaeth cysylltiedig er mwyn datblygu addysgu a gwybodaeth proffesiynol.

Casgliad

Mae arsylwi naturiol wedi profi i fod yn ddefnyddiol o ran gweld plant mewn amgylchedd naturiol oherwydd roeddent yn canolbwyntio ar y wers. Roedd y nodiadau arsylwi yn effeithiol oherwydd roedd y cwestiynau yn glir ac yn hawdd i'w dilyn yn ystod y wers. Roedd y daflen arsylwi yn creu disgrifiad clir yr achos critigol.

Roedd y model adfyfyrion yn ddefnyddiol er mwyn edrych ar yr achos critigol ac ystyried beth ddigwyddodd, sut i wella addysgu, a sut i symud ymlaen. Mae'r model yn cynnig cyfle i amlygu arfer da ac arfer aflwyddiannus er mwyn eu hystyried mewn arfer athrawon. Hefyd, mae'n annog athrawon i siarad â chydweithwyr a meddwl am gamau nesaf i wella datblygiad plant. Mae athrawon yn gallu ymchwilio i lyfryddiaeth er mwyn deall addysgu a darganfod ffyrdd i wella eu haddysgu.

Mae'r model BWA yn helpu athrawon cwrdd â Safonau Proffesiynol (2018) sef, addysgu effeithiol – arsylwi, adfyfyrion, cydweithio, ymchwil i lenyddiaeth a damcaniaethau pellach, hefyd treialu ac addasu dulliau sydd yn seiliedig ar ymchwil ac arsylwi adfyfyrion er mwyn gwella addysgu a datblygu dysgu disgyblion (2018). Wrth ystyried yr adran hon, gellid gweld y tebygrwydd rhwng y Safonau Proffesiynol a'r model BWA.

Wedi ystyried hyn rhaid dod i gasgliad bod y dull arsylwi a'r dull adfyfyrion wedi bod yn llwyddiannus i ystyried rôl athrawon i wella arfer a gwella datblygiad plant, a hefyd cwrdd â Safonau Proffesiynol athrawon.

Nifer o eiriau: 4134

Cyfeiriadau

Brookfield, S. (1998). Critically Reflective Practice. The Journal of Continuing Education in the Health Professions, Volume 18, td. 197–205.

Bronfenbrenner, U. (1979). The ecology of human development. Cambridge, Mass.: Harvard University Press.

Cohen, L., Manion, K. and Morrison, K.R.B. (2011). Research Methods in Education 7th ed. London; New York: Routledge.

Cohen, L., Manion, L., & Morrison, K. (2013). Research Methods in Education. London: Routledge.

Dewey, J. (1933) How We Think. Chicago, IL: Regnery.

Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus. Crown Copyright. Caerdydd. Ar gael: [http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-dyfodol llwyddiannus-cy.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-dyfodol%20llwyddiannus-cy.pdf)

Fook, J. (2012a) Social Work: A Critical Approach to Practice. London: Sage.

Taylor, B. (2000) Reflective Practice. Buckingham: Open University Press.

Tripp, D (2012) Critical incidents in teaching: developing professional judgement. London: Routledge.

Welsh Assembly Government. (2010). Thinking positively, Emotional Health and Well-being in schools an early years settings. Crown Copyright. Caerdydd. Ar gael:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/thinking-positively-emotional-health-and-well-being-in-schools-and-early-years-settings.pdf>

Atodiadau

1.1

University of Wales Trinity Saint David	Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities
NODIADAU ARSYLWI / MAES (Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))	
Dyddiad:	
Manylion y wers: - Biwyddyn 1, 22 o blant. - Gwers ymarfer corff - Dawns y Dail	
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Roedd y myfyrwyr yn canolbwyntio ar y wers, ond roedd un yn gwrthod cymryd rhan.	
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) - Esboniodd yr athrawes y cyfarwyddiadau yn glir	
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd y plant yn dilyn a y cyfarwyddiadau a gweithion galed. Nid oedd un disgybl yn fodlon.	
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd y herio yn addas at y plant.	
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? - Roedd y plant yn perfformio.	
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Roedd un disgybl yn eistedd i lawr ac yn gwrthod cymryd rhan, er gwaethaf annog gan yr athrawes.	

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:

Manylion y wers: Blwyddyn 1, 20 o blant. Roedd pum gweithgaredd amrywiol yn y sesiwn wrth ganolbwyntio ar lythrennedd e-e tric a chlic.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Roedd y plant yn cael e Rhannwyd y plant fel grwpiau bach o bedwar. Roedd y plant yn dilyn cyfarwyddiadau yn bennaf.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd ffocws ar lythrennedd, felly cafodd y gweithgareddau ei feni. Syn cyfrannu at ddatblygiad llythrennedd / ierthyddol. E-e. Roedd rhaid i'r plant darlunio bocs buyd a labeli'r buyd iacws.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Esboniodd yr athrawes y cyfarwyddiadau'n glir er mwyn i'r plant gwybod beth syn rhaid iddynt wneud a sut i gyflawni'r tasgau.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd y wers yn hawdd i'w dilyn i'r plant a dafodd y plant eu hendi e-e labeli o leiaf dri buyd yn eu bocs buyd nhw, neu fel her - labeli pum buyd.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Ar ôl cyflwyno'r gweithgareddau, gofynnodd yr athrawes "oes pawb yn deall?" ac atebodd Abb Plentyn "oes" roedd yr athrawes yn sicrhau bod y plant yn dilyn y tasgau. yn y dydd roedd hyn trafod y gwaith gyda'r plant ac annog iddynt rannu am eu gweithgareddau.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Roedd y plant yn symud o un gweithgaredd i'r llath yn y grŵp, fel gweithgaredd, roedd y plant yn chwarae gemau ierthyddol wrth ddefnyddio'r iPads ond roedd y merch yn argraffu i wneud y gweithgaredd yn lle symud ymlaen, felly nad oedd digon o iPads ar gael achos gormod o blant ar y gweithgaredd. Dechreuodd y plant dadlau gyda'r ferch i gael tro.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26 / 09 / 2019

Manylion y wers: Biwyddyn 6, 22 o blant.

- Gwers mathemateg a rhifedd
- Roeddent yn dysgu sut i dynnu trwy ddefnyddio llinell rif.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Roedd yr athro yn cadw sylw'r plant at y wers trwy gerdded ar draws yr ystafell a dangos ei bresenoldeb i gadw'r plant ar y dasg.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd nod y wers ar y burdd gwyn ac esboniodd yr athro bwrpas y wers a'r amcanion yn glir, cyn iddo ddechrau addysgu. Roedd y tasgaw'n canolbwyntio ar dynnu a llinell rif.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Esboniodd yr athro'r cyfarwyddiadau'n glir. Gwnaeth gwestiynau enghreifftiol ar y burdd gwyn gyda'r dosbarth cyfan i sicrhau eu bod yn deall sut i wneud y cyfrifiadau. Cyfranogodd y disgyblion trwy ofyn iddynt esbonio y swm.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Roedd gan y dafien waith 4 biwch a'r o gwestiynau a oedd yn amrywio o ran anhawster. Gallai'r plant ddewis dau i weithio arnyn nhw. Roedd y dasg yn glir.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Gofynnodd yr athro i'r plant am eu cof o ddefnyddio llinell rif yn flaenorol. Gofynnodd yr athro i'r plant rhoi plant rannu rhai o'u haterbion yn ystod y wers. Cyfnewidodd y plant dafieni i gywiro arddiwedd y wers.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Pan oedd yr athro yn gwneud cwestiynau enghreifftiol ar y burdd gwyn fel dosbarth ar ddechrau'r wers, gofynnodd i'r plant esbonio cam nesaf y swm iddo. Gofynnodd i unigolion ar hap trwy ddefnyddio ffyn lloipop i egluro'r cam nesaf iddo. Fodd bynnag, cafodd un bachgen 'J' amser i ateb, ond roedd ei ansicr ac ni chynigodd ateb wrth i'r dosbarth aros. Dywedodd yr athro "Paid â phoeni" wrtho a symudodd ymlaen i esbonio. Parhaodd y bachgen 'J' i ddangos diffyg hyder wrth geisio dafien cwblhau'r waith.